

Polisi Diogelu

Mae Severn Rivers Trust yn elusen amgylcheddol annibynnol a sefydlwyd i sicrhau bod afonydd, nentydd, sianeli ac ardaloedd dŵr yn nalgylch Hafren yn cael eu cadw, eu hamddiffyn, eu datblygu a'u gwella, ac i hyrwyddo addysg y cyhoedd wrth reoli dŵr a'r amgylchedd ehangach. Mae Severn Rivers Trust yn gweithio gyda phlant ac oedolion sydd mewn perygl mewn nifer o wahanol gyd-destunau gan gynnwys teithiau safle, ymweliadau fferm, tasgau cadwraeth, lleoliadau profiad gwaith, digwyddiadau cyhoeddus a gweithdai i ysgolion. Rydym yn cyflwyno gweithgareddau ymarferol sy'n helpu ein cyfranogwyr i ddysgu am afonydd a chael cysylltiadau cadarnhaol â'u hamgylcheddau.

Credwn na ddylai plant ac oedolion byth brofi camdriniaeth o unrhyw fath. Mae gennym gyfrifoldeb i hyrwyddo lles pob plentyn ac oedolyn sydd mewn perygl a'u cadw'n ddiogel. Rydym wedi ymrwmo i ymarfer mewn ffordd sy'n eu hamddiffyn.

Rydym o'r farn bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Mae dysgu dros y ddau ddegawd diwethaf wedi dangos y gellir lleihau'r niwed a brofir gan bobl ifanc trwy weithio ar y cyd a chymryd agwedd integredig tuag at ddiogelu ac amddiffyn plant.

Diben y polisi hwn yw:

- Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda Severn Rivers Trust; a
- Rhoi'r egwyddorion trosfwaol i staff a gwirfoddolwyr sy'n cyfeirio ein dull o ddiogelu ac amddiffyn plant i'w helpu i deimlo'n hyderus ac yn ddiogel wrth weithio mewn cymunedau.

Mae'r Polisi Diogelu yn berthnasol i'r holl staff, gan gynnwys uwch reolwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, staff taledig, gwirfoddolwyr, myfyrwyr, contractwyr neu unrhyw un sy'n gweithio ar ran Severn Rivers Trust.

Y Fframwaith Cyfreithiol

Lluniwyd y polisi hwn ar sail canllawiau sy'n ceisio amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl, sef:

- Deddf Plant 1989
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1991
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- Deddf Plant 2004
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
- Deddf Plant a Theuluoedd 2014
- Deddf Gofal 2014
- Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu plant: canllaw i weithio'n rhyngasiantaethol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant; Llywodraeth EM 2015
- Deddf Caethwasiaeth Modern 2015
- Deddf Diogelu Data 2018 mewn perthynas â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE

Rydym yn cydnabod bod:

- Lles plant o'r pwys mwyaf, fel yr ymgorfforir yn Neddf Plant 1989
- Mae gan bawb, waeth beth fo'u hoedran, anabled, rhyw, hil, cred grefyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth hawl i amddiffyniad cyfartal rhag pob math o niwed a chamdriniaeth
- Mae rhai plant ac oedolion hefyd yn agored i niwed oherwydd eu profiadau blaenorol, lefel eu dibyniaeth, eu hanghenion cyfathrebu a materion eraill
- Mae gweithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc, oedolion sy'n cymryd rhan, teuluoedd, gofawyr ac asiantaethau eraill yn hanfodol wrth hyrwyddo lles a budd.

Byddwn yn ceisio cadw plant ac oedolion sydd mewn perygl yn ddiogel trwy:

- Eu gwerthfawrogi nhw, gwranddo arnynt a'u parchu nhw
- Penodi Swyddog Diogelu Penodedig ac Aelod o'r Bwrdd i fod yn gyfrifol am ddiogelu
- Mabwysiadu arferion amddiffyn a diogelu 'plant ac oedolion sydd mewn perygl' trwy weithdrefn, hyfforddiant ac arweiniad clir ar gyfer staff a gwirfoddolwyr
- Recriwtio a dethol oedolion yn ofalus pa un a ydynt yn gyflogedig neu'n wirfoddol
- Gwirio'r holl staff sy'n gweithio'n rheolaidd gyda phlant a/neu oedolion sydd mewn perygl a'u rheolwyr trwy'r system DBS (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)
- Ymateb i bryderon a chyhuddiadau yn briodol
- Cynllunio a darparu pob gweithgaredd i sicrhau eu bod mor ddiogel a chynhwysol â phosibl, yn unol â'n polisi a'n gweithdrefn lechyd a Diogelwch a Diogelu

Pryd mae diogelu yn berthnasol i ni?

Nrhwy adeg yr ydym yn gweithio gyda'r cyhoedd neu'n cwrdd â nhw.

Er enghraifft:

- Cyflwyno gweithdai mewn/ar gyfer ysgolion neu grwpiau cymunedol
- Cynnal diwrnodau i wirfoddolwyr
- Stodinau Severn Rivers Trust a gweithgareddau mewn ffeiriau a digwyddiadau
- Ymweld â ffermwyr neu dirfeddianwyr
- Cyflawni neu reoli gwaith ar dir sy'n hygyrch i'r cyhoedd

Mae'r polisi hwn a'r canllawiau cysylltiedig wedi'u datblygu i helpu i wneud ein harfer diogelu yn **dryloyw**, yn **atebol** ac yn **amddiffynadwy**, ac i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i amddiffyn cyfranogwyr, staff a gwirfoddolwyr rhag niwed.

Rhoi'r polisi hwn ar waith

Bydd y polisi hwn a'r canllawiau 'pecyn cymorth' cysylltiedig yn cael eu hanfon at y staff a'r ymddiriedolwyr. Bydd y polisi hefyd yn cael ei arddangos yn amlwg ac ar gael yn hawdd ar wefan Severn Rivers Trust. Bydd fersiwn Gymraeg o'r brif ddogfen bolisi ar gael ar-lein. Bydd hyfforddiant o ansawdd uchel yn sicrhau bod ein cyfrifoldebau yn glir a bod y polisi a'r weithdrefn yn ddealladwy gan bawb.

Alice Fallon yw Swyddog Diogelu Penodedig Severn Rivers Trust.

Penny Cameron Watt yw Ymddiriedolwr Severn Rivers Trust sy'n gyfrifol am Ddiogelu.

Bydd yr arweinwyr diogelu hyn yn cwrdd bob chwarter i adolygu materion ac arferion ar draws yr Ymddiriedolaeth ac i wneud diweddariadau a newidiadau i'n gweithdrefn yn ôl yr angen. Bydd ymddiriedolwyr yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Polisi Diogelu a'r pecyn.